**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs**

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-13-16 Papur 8/ Paper 8

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

8 Rhagfyr 2016

Annwyl John

Mae eich llythyr dyddiedig 30 Medi, at Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, ynglŷn â chyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 21 Medi wedi'i anfon ataf i'w ateb. Mae'r ymholiad ynghylch Rhan L y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i'm portffolio.

Gwnaed ymrwymiad i gynnal adolygiad pellach o Ran L yn 2013 o dan y weinyddiaeth ddiwethaf. Unwaith y bydd yr adolygiad o gynaliadwyedd y rheoliadau adeiladu presennol wedi'i gwblhau, rwy'n bwriadu rhoi fy sylw i Ran L, gan roi sylw pellach i'r newidiadau a gafodd eu cyflwyno yn 2014. Rhagwelaf y bydd y gwaith hwn yn cychwyn tua canol 2017.

Mae ein gweithgareddau ar Ran L ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar Berfformiad Ynni yr UE yng Nghyfarwyddeb Adeiladau 2010 (Ail-lunio) a'r gofyniad i osod safonau ar lefel optimaidd o ran cost neu well. Cyhoeddwyd adroddiad y Comisiwn Ewropeaidd i optimeiddio'r gost o safonau aelod-wladwriaeth (yn seiliedig ar safonau 2010) yn Senedd y DU ar 10 Hydref 2016. Ar adeg yr asesiad (2012), arwyddwyd bod safonau y DU, ar y cyfan, ar lefel optimaidd o ran cost neu well.

Mae dadansoddiad o'n safonau effeithlonrwydd ynni presennol (Rhan L 2014) yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ar gyfer yr ail adroddiad ar gost optimeiddio. Bydd hyn yn llywio sut efallai y caiff ein safonau eu newid os oes angen bodloni gofynion Cyfarwyddeb yr UE ar gyfer adeiladau newydd 'bron yn ddi-ynni' erbyn 2020 (2018 ar gyfer y sector cyhoeddus). Ar hyn o bryd, mae gofyniad y gyfarwyddeb i sicrhau bod adeiladau newydd sydd o dan feddiant a pherchenogaeth awdurdodau cyhoeddus 'bron yn ddi-ynni' erbyn diwedd 2018, yn parhau i rwymo.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wrth edrych ar ynni a'r allyriadau yn fwy cyffredinol, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod targed cyfreithiol o leihau allyriadau o leiaf 80% o'r lefelau sylfaenol erbyn 2050 ac yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod cyfres o dargedau interim (ar gyfer 2020, 2030 a 2040) a chyllidebau carbon. Rhaid cyhoeddi adroddiad i bob cyfnod cyllidebol gan nodi'r cynigion a'r polisïau ar gyfer cyflawni'r gyllideb garbon i bob cyfnod.

Mae sector yr amgylchedd adeiledig yn faes lle rydw i eisiau gweld datgarboneiddio pellach. Wrth wneud hyn, fodd bynnag, mae angen i ni hefyd gydnabod pwysigrwydd economaidd darparu tai ychwanegol yng Nghymru. Mae'n rhaid codi safonau mewn ffordd gost-effeithiol, a byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau ein bod ni'n cydbwyso'r angen i leihau ynni mewn tai newydd â'r angen i gyflawni'r galw am dai newydd.

Tra bo codi safonau perfformiad yn raddol yn bwysig, mae angen hefyd ceisio sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei adeiladu yn gyfatebol i'r hyn sydd wedi'i gynllunio. Mae gwaith gan y Zero Carbon Hub wedi nodi bwlch rhwng cynllunio a pherfformiad ynni fel yr adeiladwyd. (Gellir gweld rhagor o wybodaeth ar y wefan ganlynol: http://www.zerocarbonhub.org/current-projects/performance-gap). Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r diwydiant adeiladu tai dros ymdrechion i leihau bylchau o'r fath.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs